CYMRU FYD-EANG
GLOBAL WALES

# Adroddiad Blynyddol Cymru Fyd-eang 2022-23

# Rhagair y Cadeirydd



Mae wedi bod yn bleser ymgymryd â rôl Cadeirydd Cymru Fyd-eang yn ystod cyfnod o newid, twf a chyfleoedd. Mae'r gwaith a wneir gan Gymru Fyd-eang yn ei hanfod yn waith hirdymor, yn canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd a dealltwriaeth yn araf ac yn gynaliadwy rhyngom ni a'n partneriaid rhyngwladol. Gyda'r rhaglen bellach yn ei thrydydd cam gyda phrosiect Cymru Fyd-eang III, rydym yn dechrau gweld manteision y gwaith amyneddgar, meddylgar hwn.

Boed hynny trwy'r cyllid a gyrchwyd gan bartneriaid ar draws y byd neu'r twf mewn ceisiadau ar gyfer ein hysgoloriaethau i astudio yng Nghymru; rydym yn gweld cynnydd mewn ymwybyddiaeth o'n gwlad, a mwy o awydd i weithio ac astudio gyda ni.

Byddai'n hawdd mynd yn hunanfodlon wrth i ni weld y buddion a'r cyflawniadau y mae'r wyth mlynedd diwethaf o weithgarwch wedi'u sicrhau. Ond nid ydym yn hunanfodlon. Rydym yn deall mai dim ond trwy ymgysylltu'n ofalus a pharhaus â'n ffrindiau a'n cydweithwyr yn y gwledydd yr ydym yn gweithio gyda nhw y cynhelir partneriaethau o'r math hwn. Wrth i ni edrych ymlaen at dair blynedd nesaf rhaglen Cymru Fyd-eang III, gallwn fod yn hyderus y bydd y gwaith y mae Cymru Fyd-eang wedi ymrwymo i'w gyflawni yn adeiladu ar yr hyn a ddaeth o'r blaen; bydd yn arloesi ac yn nodi gwelliannau, gan sicrhau manteision pellach i Gymru.

Dyna, wrth gwrs, y rheswm pam yr ydym yn gwneud hyn. Mae gwaith prifysgolion a cholegau'n rhyngwladol yn y pen draw'n ymwneud â'r buddion a gynigiwn i'n cymunedau ac i Gymru gyfan. Nid yn unig y manteision economaidd a ddaw yn sgil partneriaethau ymchwil, myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru, a phobl sy'n ymweld â Chymru, ond hefyd y manteision cymdeithasol a diwylliannol.

Efallai nad oes enghraifft well o hyn na'r cyllid y llwyddodd Cymru Fyd-eang i'w ddarparu, gyda chefnogaeth CCAUC, i brifysgolion Cymru ffurfio a chynnal partneriaethau gyda sefydliadau yn yr Wcráin. Mae'r gwaith hwn wedi golygu staff a myfyrwyr o'r Wcráin yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau gan gynnwys ysgolion haf i fyfyrwyr, darparu adnoddau gan gynnwys gliniaduron, cyflwyno cyrsiau ar-lein, a rhaglenni ar gyfer academyddion gwadd o'r Wcráin.

Newid pwysig i Gymru Fyd-eang yn ystod Cymru Fyd-eang III yw cynnwys addysg bellach. Trwy gyflwyno addysg ôl-16 yng Nghymru fel cyfanwaith cydlynol yn rhyngwladol, gallwn agor cyfleoedd newydd, sicrhau ystod ehangach o fuddion a chryfhau perthnasoedd rhwng sectorau yng Nghymru. Hoffwn ddiolch i'n cydweithwyr mewn addysg bellach am eu cyfranogiad brwdfrydig â'r rhaglen a'u parodrwydd i gydweithio â Chymru Fyd-eang.

Rydym hefyd yn ffodus i fod â phartner, yn Llywodraeth Cymru, sy'n cydnabod pwysigrwydd rhagolygon byd-eang a, thrwy gyllido ar gyfer Cymru Fyd-eang, sydd wedi cefnogi gweithgareddau sy'n ein gosod mewn sefyllfa dda yn fyd-eang.

Wrth galon Cymru Fyd-eang mae ein huchelgais i gryfhau lle Cymru ar lwyfan y byd a sicrhau bod y byd yn gwybod popeth sydd gan ein pobl, ein lleoedd a'n sefydliadau i'w gynnig. Mae'n iawn dathlu'r hyn rydym wedi'i gyflawni, ond rydym hefyd yn edrych ymlaen gydag awydd diwyro at barhau i gyflawni. Trwy'r cyfnod hwn o ansefydlogrwydd byd-eang, bydd ein gallu i ffurfio partneriaethau newydd a pharhaol yn dod yn bwysicach fyth, nid yn unig i'n sefydliadau ond hefyd i'r rôl y maent yn ei chwarae yn economaidd ac yn gymdeithasol ar draws ein gwlad.

***Dr Ben Calvert,***
***Cadeirydd Cymru Fyd-eang***

# Crynodeb Gweithredol

Yn 2022-23, cynhaliodd Cymru Fyd-eang ystod eang o weithgarwch ar draws yr holl farchnadoedd a flaenoriaethwyd, o dan Gymru Fyd-eang III a gyda chymorth ariannol ar wahân. Roedd hyn yn cynnwys croesawu partneriaid addysg bellach i ymuno â gwaith Cymru Fyd-eang am y tro cyntaf. Cynhaliwyd yr holl weithgareddau isod fel rhan o Gymru Fyd-eang III oni nodir yn wahanol.

Ehangodd Cymru Fyd-eang eu gweithgareddau yn Ewrop a datblygwyd strategaeth sy'n rhoi ffocws penodol ar Ffrainc, yr Almaen, Fflandrys ac Iwerddon. Eleni, cefnogodd Cymru Fyd-eang, mewn partneriaeth â Rhwydwaith Arloesedd Cymru, wyth grant partneriaeth ar gyfer cydweithio â sefydliadau yn Ewrop. Sicrhawyd partneriaeth hefyd gyda Sefydliad Ymchwil Fflandrys i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i grwpiau ymchwil yng Nghymru sy'n llwyddo yn eu cais am Rwydwaith Ymchwil Gwyddonol. Cynhaliwyd nifer o ymweliadau a dirprwyaethau gan gynnwys mynychu ffeiriau recriwtio, ymweliadau cwmpasu â Fflandrys ac Iwerddon, a dirprwyaeth o Brifysgolion Gwyddorau Cymhwysol yr Almaen i Gymru.

Yn India, ehangodd Cymru Fyd-eang ei gwaith i ail dalaith – Karnataka – gan adeiladu ar y gwaith sylfaenol a wnaed eisoes gyda'r farchnad, gan gynnwys cynnydd pellach ar y prosiect diwygio'r cwricwlwm yn Telangana, partneriaethau newydd yn Telangana gyda chefnogaeth gan gyllid Cymru Fyd-eang sydd wedi arwain at ddeilliannau diriaethol mewn cynigion a threfniadau cydweithredol, ac ymweliad datblygu marchnad estynedig. Roedd hyn yn cynnwys gweithdy cerbydau trydan pum niwrnod a ddarparwyd gan golegau addysg bellach. Fe wnaethom hefyd sefydlu rhaglen fentora gyda chanolfan arloesi busnesau newydd mwyaf y byd – T-Hub – a sicrhau cyhoeddusrwydd helaeth trwy ein hymgysylltiad â Chwpan Hoci'r Byd yn Bhubaneswar India a gyllidwyd yn rhannol gan CCAUC.

Parhaodd ein gwaith hir-sefydlog yng Ngogledd America i ddatblygu gyda chynnwys Canada yn ein gwaith gyda'r farchnad hon. Yn ogystal ag ystod eang o weithgarwch recriwtio a phartneriaeth, gan gynnwys trwy fynychu cynhadledd addysg NAFSA a chynhadledd cynghorwyr arweiniol NACAC, aethom ati hefyd i gefnogi partneriaethau trwy arwyddo Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda Cholegau ac Athrofeydd Canada a Phrifysgolion Canada, gyda'r cyntaf o'r rhain yn cynnwys Colegau Cymru fel llofnodwr. I gefnogi'r gwaith hwn, trefnodd Cymru Fyd-eang ddirprwyaeth o benaethiaid colegau yng Nghymru i fynychu Cynhadledd Ffederasiwn Colegau a Pholytechnig y Byd. Cefnogodd Cymru Fyd-eang hefyd bedair partneriaeth ymchwil trwy gynnig cymorth ariannol ar y cyd â Rhwydwaith Arloesi Cymru. Yn olaf, roedd taith cynghorwyr Cymru Fyd-eang o amgylch Cymru'n cynnwys 19 o gynghorwyr o'r Unol Daleithiau, ac unwaith eto derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn.

Mae gwaith Cymru Fyd-eang gyda Fietnam yn parhau i arwain at drefniadau cydweithredol diriaethol yn cael eu ffurfio o ganlyniad i gefnogaeth Cymru Fyd-eang. Eleni gwnaeth Cymru Fyd-eang gais llwyddiannus i groesawu dirprwyaeth o Fietnam a hefyd ariannodd, yn ogystal â chefnogi, rhaglen bartneriaeth yn canolbwyntio ar Ynni Gwyrdd ac Amaeth Gynaliadwy. Hefyd cynhaliodd y Bartneriaeth Mynd yn Fyd-eang eu cyfarfod prosiect cyntaf gyda 15 o gynrychiolwyr yn mynychu ar ran pedair prifysgol yn Fietnam. Roedd y rhaglen ar gyfer yr ymweliad yn cynnwys cyfarfod dros frecwast gyda Llysgennad Fietnam i'r DU, mewn cydweithrediad â'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru a Fietnam Fe wnaethom hefyd gynorthwyo cynrychiolydd o addysg bellach i fynychu Deialog Wilton Park yn Ninas Ho Chi Minh, Fietnam.

Rhan allweddol o waith Cymru Fyd-eang yw ein gweithgarwch marchnata o dan frand Astudio yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ymgyrchoedd marchnata digidol ar draws yr holl farchnadoedd blaenoriaeth, a lwyddodd i sicrhau cyfanswm o 171 miliwn o argraffiadau a 2.3 miliwn o gliciau i'r wefan. Yn ogystal â hyn, ffurfiwyd partneriaeth rhwng Astudio yng Nghymru a Hoci Cymru ar gyfer Cwpan y Byd y Dynion yn India, a arweiniodd at greu deunydd digidol ochr-yn-ochr â'r gwaith partneriaeth a wnaed gan Gymru Fyd-eang, a gefnogwyd yn rhannol gyda chyllid gan CCAUC. Arweiniodd hyn at bron i 180,000 o argraffiadau ar gyfryngau cymdeithasol a, thrwy ein hymgyrch cysylltiadau cyhoeddus, sicrhawyd 242 o ddarnau o sylw yn y wasg ledled y DU ac India. Cynhyrchwyd amrywiaeth o ddeunyddiau hefyd i gefnogi gweithgareddau Astudio yng Nghymru, gan gynnwys fideos newydd i bartneriaid AB eu defnyddio a datblygu gwefannau gan gynnwys tudalen colegau ar wefan Astudio yng Nghymru ac ymgyrch gyflogadwyedd newydd. Mae monitro effaith y gwaith hwn wedi cynnwys dau ddarn o ymchwil: traciwr brand sydd wedi dangos cynnydd sylweddol mewn ymwybyddiaeth a theimlad cadarnhaol tuag at Gymru, yn ogystal ag ymarfer i fesur canlyniad buddsoddi sydd wedi nodi deilliannau cadarnhaol yn sgil buddsoddiad mewn gweithgareddau marchnata gan Astudio yng Nghymru.

Parhaodd Cymru Fyd-eang hefyd i gefnogi ei rhaglen ysgoloriaeth sy'n cynnwys Ysgoloriaethau Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang, Chevening, ysgoloriaethau Fulbright UDA-DU ac Ysgoloriaethau Gilman. Rhoddwyd cefnogaeth i ysgolheigion trwy amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu, gan gynnwys ymweliadau â'r Senedd lle cyfarfu'n myfyrwyr hyn â'r Dirprwy Lywydd. Roedd ceisiadau ar gyfer Ysgoloriaethau Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang 2023-24 yn gryf gyda 1,364 wedi dod i law.

# Pwrpas

Eleni oedd wythfed flwyddyn partneriaeth Cymru Fyd-eang a chwblhau blwyddyn gyntaf rhaglen Cymru Fyd-eang III, a ariennir gan Lywodraeth Cymru trwy Taith.

Mae gan raglen Cymru Fyd-eang III bedwar amcan:

- cynyddu niferoedd myfyrwyr rhyngwladol o ardaloedd blaenoriaeth
- cynnal a thyfu partneriaethau mewn marchnadoedd blaenoriaeth
- cynhyrchu enillion allforio ychwanegol i Gymru o farchnadoedd blaenoriaeth
- cynyddu ymwybyddiaeth ac enw da prifysgolion a cholegau addysg bellach Cymru ymhlith marchnadoedd blaenoriaeth

Mae ein marchnadoedd blaenoriaeth wedi tyfu o ffocws cychwynnol y bartneriaeth ar yr Unol Daleithiau a Fietnam i gynnwys:

- Gogledd America (UDA a Chanada)
- Fietnam
- India (gan ganolbwyntio ar Telangana a Karnataka)
- Ewrop (gan ganolbwyntio ar Ffrainc, yr Almaen, Fflandrys ac Iwerddon)

Nodwyd y marchnadoedd hyn trwy ymchwil i'r farchnad ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan archwilio ble y gallai'r rhaglen ychwanegu gwerth orau, manteisio ar gyfleoedd, a gweithio mewn ffordd gydweithredol rhwng un system a'r llall.

Mae Cymru Fyd-eang, gan gynnwys Cymru Fyd-eang III a gweithgareddau eraill a ariennir yn allanol, megis ein cyfranogiad yn y rhaglen Mynd yn Fyd-eang a'n Cefnogaeth i'r Wcráin trwy Bartneriaeth , yn cael eu darparu gan Brifysgolion Cymru.

# Effaith

O ffurfio partneriaethau rhwng sefydliadau a chyda'r llywodraeth i gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dod i Gymru, yr effaith sy'n cael ei chreu sydd wrth galon gweithgareddau rhaglen Cymru Fyd-eang. Nodir yn yr adran hon rai o'r ffyrdd y llwyddodd Cymru Fyd-eang i gyflawni effaith yn 2022-23.

Roedd Cymru Fyd-eang III yn cynnwys addysg bellach yn y rhaglen am y tro cyntaf. Roedd gweithgareddau gydag addysg bellach yn perthyn i lawer o'r meysydd a nodir isod, ond rydym wedi rhoi sylw penodol i'r gwaith hwn yn yr adran Addysg Bellach.

## Ffeithiau a ffigurau

**24**
o bartneriaethau newydd wedi'u hariannu

**£199k**
o gyllid ychwanegol wedi'i gyrchu trwy weithgareddau Cymru Fyd-eang

**46**
o ysgoloriaethau wedi'u cyflwyno

**1,372**
o geisiadau am ysgoloriaethau wedi dod i law

## Ymgyrchoedd marchnata Astudio yng Nghymru

**200m**
o argraffiadau digidol

**2.5m**
o gliciau yn gyrru traffig i wefan Astudio yng Nghymru

**125m**
Gwyliwyd fideos brand Astudio yng Nghymru 125 miliwn o weithiau

# Ewrop

Yn 2022-23, datblygodd a chytunodd Cymru Fyd-eang ar strategaeth ar gyfer ymgysylltu ag Ewrop sy'n cynnwys ffocws ar Ffrainc, yr Almaen, Fflandrys ac Iwerddon. Cynhaliodd y sefydliad ystod eang o weithgareddau i gefnogi amcanion Cymru Fyd-eang gan gynnwys:

- Cefnogi, mewn partneriaeth â Rhwydwaith Arloesi Cymru, cronfa grantiau bach i ariannu gweithgarwch ymchwil ac arloesi cydweithredol. Darparodd Cymru Fyd-eang arian sbarduno i wyth prosiect a oedd yn cynnwys cydweithio â sefydliadau yn Ewrop. Pwrpas y grantiau oedd gwella partneriaethau a chyrchu cyllid ychwanegol, gyda llawer o'r prosiectau a ariannwyd bellach wrthi'n paratoi ceisiadau pellach.
- Trefnu dirprwyaeth o lywyddion ac is-lywyddion o 20 o Brifysgolion Gwyddorau Cymhwysol yr Almaen ym mis Mawrth 2023 mewn cydweithrediad â Deutscher Akademischer Austauschedienst (DAAD), asiantaeth yr Almaen sy'n gyfrifol am drefniadau cyfnewid academaidd. Mae ymweliad cyfatebol i sefydliadau o Gymru'n cael ei drefnu ar gyfer 2023-24.
- Creu partneriaeth newydd gyda Sefydliad Ymchwil Fflandrys (FWO) a fydd yn darparu cymorth ariannol ychwanegol gan Gymru Fyd-eang i grwpiau ymchwil yng Nghymru sy'n llwyddo yn eu cais am Rwydwaith Ymchwil Gwyddonol.
- Mynychu ffeiriau a digwyddiadau recriwtio ym Mharis, Stuttgart a Bilbao. Buom hefyd yn arddangos y brand Astudio yng Nghymru yng nghynhadledd flynyddol Cyngor Ysgolion Rhyngwladol Prydain yn Llundain.
- Cynnal ymweliadau cwmpasu ag ardaloedd blaenoriaeth gan gynnwys Fflandrys ac Iwerddon.
- Cynnal derbyniad Siambr Fasnach Prydain ac Iwerddon yn eu Derbyniad Addysg Uwch a Chynhadledd Diwydiant.
- Cymryd rhan mewn dirprwyaeth ddeuddydd i Frwsel a drefnwyd ar y cyd ag Addysg Uwch Cymru Brwsel (WHEB). Cynhaliodd Cymru Fyd-eang dderbyniad ar y cyd ar gyfer cyn-fyfyrwyr, gyda Jeremy Miles, Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg, yn bresennol.

# India

Mae ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud yn ystod blwyddyn gyntaf rhaglen Cymru Fyd-eang III yn India a oedd yn cynnwys datblygu 'partneriaethau dwfn' gyda thalaith flaenoriaeth Telangana, gan gynnwys cyngor y dalaith dros Addysg Uwch a'r llywodraeth ehangach. O dan y strategaeth ar gyfer India, ehangodd gwaith y rhaglen i ail dalaith – Karnataka – gan greu cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithredu rhwng prifysgolion a cholegau Cymru a phartneriaid yn India. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys:




- Cynnydd pellach yn y prosiect diwygio'r cwricwlwm yn Telangana. Trefnodd Cymru Fyd-eang fod cynrychiolwyr o Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor, y naill a'r llall yn rhan o'r prosiect, yn ymweld â Hyderabad a chyflwyno cyfres o weithdai ar sicrwydd ansawdd, cyflogadwyedd ac egwyddorion y cwricwlwm. Bydd y diwygiadau a wnaed yn cael eu rhoi ar waith mewn dros 6,000 o golegau yn nhalaith Telangana.

- Cefnogi partneriaethau prifysgol newydd rhwng Cymru a Telangana trwy gyllid Cymru Fyd-eang. Roedd hyn yn cefnogi blaenoriaethau ymchwil gan gynnwys dyfodol gwyrdd, seiber-ddiogelwch, iaith, diwylliant a threftadaeth, a gweithgynhyrchu ychwanegion. Gwnaed saith cyfraniad ariannol i bum prifysgol yng Nghymru i gydweithio â phartneriaid yn Telangana. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at geisiadau newydd am gyllid pellach o ffynonellau eraill a Memoranda Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng sefydliadau.

- Ymgymryd ag ymweliad datblygu estynedig â Telangana gyda chymorth ymarferol sylweddol gan lywodraeth Telangana. Yn ystod y cyfnod hwn, ffurfiwyd nifer o bartneriaethau newydd gan gynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda T-Hub, y sefydliad sbarduno busnesau newydd mwyaf yn y byd.

- Sefydlu Rhaglen Fentora T-hub. Darparodd Cymru Fyd-eang gyllid ar gyfer pedair rhaglen fentora i'w cyflawni gan arbenigwyr academaidd/technegol yng Nghymru, fyddai'n cynnig cefnogaeth i 14 o fusnesau newydd. Ochr T-Hub o'r fargen fydd cynnig lleoliadau gwaith ac interniaethau i sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghymru.

- Cynnal dau ddigwyddiad ar gyfer Cwpan Hoci'r Byd yn Bhubaneswar India. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad yn Ysgol Ryngwladol KIIIT, oedd â'r nod o hyrwyddo astudio yng Nghymru i 40 o ysgolion o dalaith Odisha, a fynychwyd gan 1,700 o fyfyrwyr.  Mynychodd dros 50 o westeion dderbyniad ar gyfer rhanddeiliaid a drefnwyd i bontio cysylltiadau rhwng Cymru ac India. Llwyddodd Cymru Fyd-eang i ysgogi cydweithrediad gan nifer o randdeiliaid ar draws Llywodraeth Cymru yn India, Llywodraeth y DU a'r cyngor Prydeinig yn India i gyflawni'r amcanion hyn. Ers y gweithgaredd Hoci, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i roi ar waith gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol KIIT a Chlwstwr Arloesedd Dinas Bhubaneswar i ddatblygu cydweithrediadau gofal iechyd.
- Cytuno ar Karnataka fel yr ail dalaith ar gyfer ehangu gwaith yn India o dan raglen Cymru Fyd-eang III. Cynhaliodd Cymru Fyd-eang, ochr-yn-ochr â'r Cyngor Prydeinig yn India, ddirprwyaeth o bum Is-Ganghellor o brifysgolion talaith Karnataka i Gaerdydd. Bydd galwad am gyllido ar gyfer 2023-24 yn cadarnhau perthnasoedd a ddatblygwyd yn ystod y ddirprwyaeth.
- Mynychu Cynhadledd flynyddol Gyrfaoedd a Chynghorwyr Coleg IC3 a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn Hyderabad. Roedd Astudio yng Nghymru yn noddwr brecwast allweddol, gan gynnal derbyniad brecwast i gwnselwyr ysgol i ddysgu mwy am y cyfleoedd i astudio a byw yng Nghymru. Trwy gyllido gan Gymru Fyd-eang, mynychodd chwe phrifysgol o Gymru'r gynhadledd a chefnogi Astudio yng Nghymru yn yr arddangosfa, yn ogystal â chymryd rhan mewn ymweliadau ag ysgolion rhyngwladol yn ystod yr wythnos.
- O ganlyniad i gyllid sbarduno cychwynnol a ddarparwyd gan Gymru Fyd-eang yn 2021, sefydlwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd, y Labordy Cemegol Cenedlaethol yn India, a Johnson Matthey, cwmni gweithgynhyrchu catalyddion blaenllaw yn y DU, i ariannu ysgoloriaethau ymchwil PhD ar y cyd.

# Gogledd America

Ehangwyd gwaith hirsefydlog Cymru Fyd-eang yng Ngogledd America i gynnwys Canada yn 2022-23. Eleni:

- Cynhaliodd Cymru Fyd-eang daith flynyddol Astudio yng Nghymru ar gyfer Cynghorwyr, a oedd yn cynnwys 19 o gynghorwyr o ysgolion uwchradd a rhai annibynnol o UDA, gan ymweld â phedair prifysgol yng Nghymru a chymryd rhan mewn diwrnod diwylliannol i ddysgu mwy am ddiwylliant, hanes ac iaith Cymru.
- Mewn partneriaeth â Rhwydwaith Arloesi Cymru, cyllidodd Cymru Fyd-eang gronfa grantiau bach i ariannu gweithgarwch ymchwil ac arloesi cydweithredol. Darparodd Cymru Fyd-eang arian sbarduno ar gyfer pedwar prosiect a oedd yn cynnwys cydweithio â sefydliadau yng Ngogledd America. Pwrpas y grantiau oedd gwella partneriaethau a chyrchu cyllid ychwanegol, gyda llawer o'r prosiectau a ariannwyd bellach wrthi'n paratoi ceisiadau pellach.



- Yn ystod ymweliad datblygu marchnad ag Arfordir Gorllewin UDA ym mis Ebrill, aethpwyd ati i ymgysylltu â rhwydwaith rhanddeiliaid allweddol trwy gyfres o ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer cynghorwyr coleg. Roedd hefyd yn cynnwys presenoldeb Astudio yng Nghymru yn uwchgynhadledd Cymdeithas y Gorllewin ar gyfer Cwnsela Derbyn i Golegau (WACAC) yn Spokane. Cynhaliwyd derbyniad Astudio yng Nghymru ar gyfer Cynghorwyr Coleg ochr-yn-ochr â WACAC, yn ogystal â digwyddiad ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr, a drefnwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn Seattle.
- Trefnodd Cymru Fyd-eang eu dirprwyaeth gyntaf yn canolbwyntio ar addysg bellach, gan gydlynu ymweliad ar gyfer penaethiaid colegau â chynhadledd a gynhaliwyd ar y cyd gan Ffederasiwn Colegau a Pholytechnig y Byd / Colegau ac Athrofeydd Canada ym Montreal. Llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth teiran rhwng Prifysgolion Cymru, ColegauCymru a CICan mewn derbyniad Cymru Fyd-eang a gynhaliwyd yn ystod y gynhadledd.
- Cynhaliodd Astudio yng Nghymru arddangosfa yn NAFSA ac ymunodd cynrychiolwyr o saith o brifysgolion Cymru â nhw. Llofnododd Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Canada Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nerbyniad NAFSA Astudio yng Nghymru, a oedd yn cynnwys ffocws ar gynyddu symudedd staff a myfyrwyr, gwella cydweithrediad mewn ymchwil, meithrin partneriaethau sector, a chadarnhau perthnasoedd dwyochrog yn y sector addysg.

# Fietnam

Mae gwaith Cymru Fyd-eang gyda Fietnam yn parhau i arwain at drefniadau cydweithredol diriaethol yn cael eu ffurfio rhwng sefydliadau yng Nghymru a Fietnam. Eleni:

- Gwnaeth Cymru Fyd-eang gais llwyddiannus i groesawu dirprwyaeth newydd o uwch arweinwyr o Fietnam sydd â diddordeb mewn datblygu partneriaeth sefydliadol. Croesawodd Cymru Fyd-eang 16 o gynrychiolwyr o Fietnam – yn cynrychioli chwe phrifysgol, y Cyngor Prydeinig yn Fietnam a'r Weinyddiaeth Addysg – i Brifysgol Metropolitan Caerdydd, lle bu Cymru Fyd-eang yn gweithio mewn partneriaeth â nhw i gyflwyno rhaglen diwrnod o hyd o weithgareddau a chyfleoedd rhwydweithio.
- Bu Cymru Fyd-eang yn ariannu a chefnogi rhaglen bartneriaeth yn canolbwyntio ar gydweithio yn y sectorau Ynni Gwyrdd ac Amaeth Gynaliadwy rhwng mis Mawrth a Mehefin 2023. Cafodd cynrychiolwyr o Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Bangor gyfle i gwrdd â phartneriaid o Brifysgol Can Tho a Phrifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Hanoi yn Fietnam cyn eu croesawu i Gymru. O ganlyniad i hyn, mae prosiectau dilynol wedi archwilio cyfleoedd yn seiliedig ar ddefnyddio arbenigedd a diddordeb a rennir ym maes synhwyro o bell gyda'r uchelgais hirdymor o sicrhau grantiau rhyngwladol sylweddol ar gyfer ymchwil ar y cyd a symudedd myfyrwyr/staff.
- Cynhaliodd Partneriaeth Mynd yn Fyd-eang eu cyfarfod prosiect cyntaf gyda 15 o gynrychiolwyr o bedair prifysgol yn Fietnam – Can Tho, Da Nang, Hue a VNU-UET – gan ymweld â Chymru i gwrdd â'u partneriaid ym Mhrifysgolion Aberystwyth, Caerdydd, Abertawe a Bangor. Mae'r Bartneriaeth yn archwilio cydraddoldeb rhywedd a chynhwysiant mewn arweinyddiaeth a llywodraethiant addysg uwch. Roedd y rhaglen yn gyfle i'r cynrychiolwyr o Fietnam ymweld â phob un o'r sefydliadau partner yng Nghymru i ddysgu am arferion a'u cymharu, tra hefyd yn ymchwilio i feysydd eraill o ddiddordeb a rennir ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.
- Roedd rhaglen ymweliadau Partneriaeth Mynd yn Fyd-eang hefyd yn cynnwys cyfarfod dros frecwast gyda Llysgennad Fietnam i'r DU, mewn cydweithrediad â'r Cyngor Prydeinig yng Nghymru a Fietnam Dilynwyd hyn gyda chyfarfod bwrdd-crwn i drafod polisi gyda'r Llysgennad, oedd yn gyfle i gynrychiolwyr o sectorau AB ac AU Cymru grybwyll a gosod themâu a meysydd ffocws ar gyfer partneriaethau Cymru-Fietnam yn y dyfodol.

# Astudio yng Nghymru

Cyflawnodd Astudio yng Nghymru gynnydd sylweddol yng nghyrhaeddiad ac effaith eu gweithgareddau yn 2022-23.

## Partneriaethau

- Ffurfiodd Astudio yng Nghymru bartneriaeth â Hoci Cymru ar gyfer Cwpan y Byd Hoci Dynion yn India, gan greu deunydd digidol a chynhyrchu cyhoeddusrwydd ochr-yn-ochr â gwaith partneriaeth ehangach a wnaed gan Gymru Fyd-eang yn ystod y gystadleuaeth. Ar gyfryngau cymdeithasol, cynhyrchwyd bron i 180k o argraffiadau a chyflawnwyd dros 6.5k o ymgysylltiadau yn organig. Trwy ein hymgyrch cysylltiadau cyhoeddus, llwyddwyd i sicrhau 242 o eitemau yn y cyfryngau ar draws y DU ac India. Enillodd y gwaith hwn ddwy wobr yng Ngwobrau Dare PRCA. Mae'r ymgyrch hon hefyd wedi'i henwebu ar gyfer dwy wobr PRide CIPR Cymru, gyda'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2023.
- Buom hefyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i gyfrannu at gynhyrchu asedau i ddathlu rhan tîm Cymru yng Nghwpan Pêl-droed y Byd, a oedd yn cynnwys pum fideo yn dangos myfyrwyr ym mhrifysgolion a cholegau Cymru.
- Ar gyfer Wythnos Cymru ym mis Mawrth, buom yn cydweithio â Study UK i gynhyrchu deunydd â ffocws Cymreig a rannwyd yn organig ac a dalwyd amdano gan Study UK (ac a rannwyd yn organig gan Astudio yng Nghymru). Cyflawnodd yr ymgyrch hon 12.7m o argraffiadau, 2.6m o ymgysylltiadau, denwyd 60.9k o gliciau, a gwyliwyd y fideos 2m o weithiau. Gyrrwyd traffig tuag at wefan Astudio yng Nghymru trwy gydol yr ymgyrch hon.



- Rhoddwyd pwyslais eleni hefyd ar feithrin ein perthynas ag addysg bellach yng Nghymru, trwy gyflwyno tudalen ‘Colegau’ ar wefan Astudio yng Nghymru a nodi pob maes sy’n addas ar gyfer deunydd AB ychwanegol. Mae dau fideo sy’n canolbwyntio ar y sector AB a’r colegau sy’n recriwtio’n rhyngwladol hefyd wedi’u cynhyrchu.
- Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi llwyddo i reoli presenoldeb Astudio yng Nghymru mewn digwyddiadau cydweithredol, gan gynnwys EAIE a NAFSA.

## Ymgyrchoedd Digidol

- Cynhaliwyd dwy ymgyrch farchnata y talwyd amdanynt ar gyfer recriwtio yn ystod y flwyddyn ar draws Meta, Google Search, Google Display, YouTube, TikTok a Snapchat. Cyflawnodd yr ymgyrchoedd hyn gyfanswm o 171 miliwn o argraffiadau, 2.3 miliwn o gliciau i’r wefan, a 33,000 o awgrymiadau a gwyliwyd y fideo 112 miliwn o weithiau
- Yn ogystal, cyflawnodd ymgyrchoedd ar gyfer ein hysgoloriaethau Ôl-raddedig Chevening a Chymru Fyd-eang dros 13m o argraffiadau, dros 85k o gliciau, dros 1k o awgrymiadau, a gwyliwyd y fideos dros 10m o weithiau.

## Cynnwys

- Mabwysiadwyd agwedd ‘bob amser ymlaen’ at gynnwys, gan gynhyrchu fideos, blogiau, astudiaethau achos a deunydd ar gyfer cyfryngau cymdeithasol penodol, yn ogystal â chomisiynu ffotograffiaeth i gryfhau’r banc asedau sy’n eiddo i ni. Yn dilyn ymchwil helaeth a chydweithio gyda’r sector, lansiwyd ein hymgyrch cyflogadwyedd ‘Y Tu Hwnt i Astudio’ sy’n arddangos y ffyrdd y mae addysg bellach ac uwch yng Nghymru yn cynorthwyo myfyrwyr i fod yn barod am waith, gan amlinellu rhai o’r adnoddau sydd ar gael.
- Yn ystod y flwyddyn, mae cyfrifon Facebook, Twitter ac Instagram Astudio yng Nghymru wedi casglu cyfanswm cyrhaeddiad cynulleidfa o 396,678 yn sgil 840 o negeseuon, a arweiniodd at 20,824 o ymrwymiadau a 1,019 o ddilynwyr newydd.
- Cyrhaeddodd cyfrifon Twitter a LinkedIn Cymru Fyd-eang gynulleidfa o 217,089 o ganlyniad i 427 o negeseuon. Arweiniodd hyn at 10,510 o ymrwymiadau a 673 o ddilynwyr newydd.

## Ymchwil

- Mae dau ddarn o ymchwil/mewnwelediad wedi’u cynnal yn allanol. Mae ein ‘traciwr brand’ yn cynnal arolwg o ddarpar fyfyrwyr yn ein marchnadoedd blaenoriaeth er mwyn cael cipolwg ar ymwybyddiaeth o Gymru ac Astudio yng Nghymru. Dyma’r ail flwyddyn i ni gynnal yr arolwg hwn. Cynhaliwyd ymarfer canlyniadau buddsoddiad ychwanegol (gan fabwysiadu’r fethodoleg a ddefnyddir gan Study UK) ymysg myfyrwyr rhyngwladol ar eu blwyddyn gyntaf a myfyrwyr ôl-raddedig sydd eisoes yn astudio yng Nghymru, gyda’r bwriad o fesur yr effaith a gafodd gweithgaredd Astudio yng Nghymru ar y penderfyniad hwnnw. Mae canlyniadau’r ddau ddarn o waith yn gadarnhaol iawn, gan ddangos cynnydd mawr mewn ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan astudio ac yn gosod gwerth cryf ar weithgarwch Astudio yng Nghymru ar draws yr holl farchnadoedd blaenoriaeth.

# Ysgoloriaethau

Ariannodd Cymru Fyd-eang gyfanswm o 44 o ysgolheigion yn y flwyddyn academaidd 2022/23 ar draws pedair rhaglen ysgoloriaeth unigol:

- Ysgoloriaethau Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang
- Chevening
- Comisiwn Fulbright UDA-DU
- Rhaglen Ysgoloriaeth Gilman

Llwyddwyd i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ag ysgolheigion ar gyfer y myfyrwyr hyn gyda'r nod o greu "llysgenhadon gydol oes" i Gymru fel cyrchfan astudio. Yn ogystal â chael eu darparu â hamper croeso, cymerodd yr ysgolheigion ran mewn digwyddiad croeso gaeaf ym mis Rhagfyr 2022. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i'r myfyrwyr rwydweithio â'i gilydd a dysgu mwy am Gymru, ei hiaith a'i diwylliant trwy ymweliadau â Chastell Caerdydd, yr Amgueddfa Werin ac Eglwys Gadeiriol Llandaf.

Ym mis Ebrill 2023, cymerodd ysgolheigion ran mewn gweithdy deuddydd o'r enw 'Arweinyddiaeth mewn Cyd-destun Byd-eang' a gyflwynwyd gan y cwmni arobryn 'Colour Works' - arbenigwyr o fri rhyngwladol ym maes datblygu pobl. Hefyd mynychodd yr ysgolheigion ginio rhwydweithio, yn ogystal ag ymweld â'r Senedd, lle cawsant sesiwn holi-ac-ateb gyda'r Dirprwy Lywydd, David Rees AS.

Ym mis Gorffennaf 2023 ymwelodd ysgolheigion â thref hanesyddol Llangollen ar gyfer digwyddiad rhwydweithio haf. Gan ganolbwyntio ar 'Gymru Naturiol', cymerodd myfyrwyr ran mewn nifer o weithgareddau awyr agored, gan gynnwys canŵio ar draws traphont ddŵr Pontcysyllte, y draphont ddŵr uchaf yn y byd. Trefnwyd bod digon o amser ar gyfer cyfweld ag ysgolheigion ar gyfer vox pops cyfryngau cymdeithasol ac iddynt ysgrifennu blogiau byr am eu profiad o fod yn ysgolhaig Cymru Fyd-eang.



Yn eu hadborth roedd 100% o'r mynychwyr naill ai'n fodlon iawn neu'n eithriadol o fodlon â'u profiad. Roedd yr adborth gan o leiaf 85% o'r myfyrwyr hyn naill ai'n eithriadol o fodlon neu'n fodlon iawn â phob elfen unigol o'r rhaglen ymgysylltu ag ysgolheigion.

## Ceisiadau am Ysgoloriaethau 2023/24

Daeth ceisiadau am Ysgoloriaeth Ôl-raddedig Cymru Fyd-eang ar gyfer 23/24 i ben ar 31ain Mai, gyda 1,364 o geisiadau wedi dod i law, cynnydd o 20% mewn ceisiadau cymwys ers y llynedd. Derbyniwyd llawer mwy o geisiadau o Ogledd America a'r UE ar gyfer y flwyddyn academaidd 23/24 o gymharu â'r llynedd, gan gynyddu amrywioldeb yr ymgeiswyr. Cynyddodd ceisiadau o'r UE 264%, gyda cheisiadau o Ogledd America 64% yn uwch na ffigurau'r llynedd.

## Unibuddy

Cytunodd Cymru Fyd-eang i ddefnyddio'r platfform ymgysylltu rhwng cymheiriaid Unibuddy ar wefan Astudio yng Nghymru. Bydd hwn yn cael ei gynnal gan ysgolheigion cyfredol a blaenorol Cymru Fyd-eang ac yn cysylltu darpar fyfyrwyr â'u cyfoedion ar sail gyfamserol.

# Addysg Bellach

Fel y nodwyd uchod, mae Cymru Fyd-eang III erbyn hyn yn cynnwys addysg bellach yn y rhaglen. Yn ogystal â'r gwaith a nodwyd uchod gydag addysg bellach, dyma rai o'n gweithgareddau eraill:

- Diweddaru gwefan Astudio yng Nghymru i gynnwys y colegau sy'n recriwtio'n rhyngwladol, ynghyd â gwybodaeth am y sector yn ehangach a sut mae colegau'n cefnogi myfyrwyr â sgiliau cyflogadwyedd. Crëwyd dau fideo hyrwyddo i arddangos galluoedd rhyngwladol y sector addysg bellach a hyrwyddo recriwtio rhyngwladol.
- Cynrychiolodd Andrew Cornish, Cadeirydd Grŵp Rhyngwladol ColegauCymru, sector addysg bellach Cymru yn Neialog Wilton Park yn Ninas Ho Chi Minh, Fietnam. Rhoddodd y gynhadledd sylw penodol i "Her sgiliau yng Ngwledydd De-Ddwyrain Asia (ASEAN): Sut gall y llywodraeth, darparwyr addysg a chyflogwyr ddarparu sgiliau ar gyfer yr 21ain Ganrif?". Rhannodd y cynrychiolwyr anawsterau gan gynnwys cysylltu'r cwricwlwm â'r sgiliau y mae cyflogwyr eu heisiau, ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd a chefnogi diwylliant o ddysgu gydol oes.
- Cynorthwyodd Cymru Fyd-eang ddirprwyaeth o benaethiaid colegau yng Nghymru i ymweld â Ffederasiwn Colegau a Pholytechnig y Byd ym Montreal. Yn ystod yr ymweliad, hwylusodd Cymru Fyd-eang y broses o lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Colegau ac Athrofeydd Canada, ColegauCymru, a Phrifysgolion Cymru.

- Trefnodd Cymru Fyd-eang weithdy cerbydau trydan (EV) pum diwrnod yng Ngholeg Peirianneg a Thechnoleg Geethanjali yn Hyderabad, Telangana. Cyflwynwyd y sesiynau gan hyfforddwyr addysg bellach o Grŵp Colegau NPTC a Grŵp Llandrillo Menai, gyda chefnogaeth y Cylch Ymchwil ac Arloesi yn Hyderabad; nod y gweithdai oedd hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr Indiaidd yn y diwydiant cerbydau trydan. Cafodd y myfyrwyr wybodaeth fanwl am geir trydan a thechnolegau cysylltiedig, gan osod y llwyfan ar gyfer cyrsiau pellach gyda phartneriaid yn India.
- Fel rhan o'r ymweliad cwmpasu a drefnwyd gan Gymru Fyd-eang ac Addysg Uwch Cymru Brwsel, cychwynnodd Cymru Fyd-eang a CholegauCymru ar gyfres o gyfarfodydd ym Mrwsel i archwilio cyfleoedd ar gyfer partneriaethau gyda Fflandrys a Baden-Württemberg. Gosododd y trafodaethau seiliau ar gyfer cydweithio mewn gwahanol sectorau, gan gynnwys arweinyddiaeth addysg ac ymchwil.

# Llywodraethiant

Mae gweithgareddau Cymru Fyd-eang, gan gynnwys y rhai o dan Gymru Fyd-eang III, yn gweithredu o fewn strwythur llywodraethiant Prifysgolion y DU gyda chyngor strategol yn cael ei ddarparu gan Fwrdd Cymru Fyd-eang.

## Bwrdd Cymru Fyd-eang

Mae Bwrdd Cymru Fyd-eang yn gyfrwng i'r bartneriaeth rannu gwybodaeth, nodi gweithgareddau posibl ar y cyd a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau. Mae'r Bwrdd hefyd yn gweithredu fel bwrdd cynghori strategol ar gyfer prosiect Cymru Fyd-eang III ac yn sgil hynny, mae'n cynnwys Taith fel cyllidwr a chynrychiolydd addysg bellach fel partner yn y prosiect. Mae'r cyngor a ddarperir gan y Bwrdd yn ffurfio sail i benderfyniadau pwyllgor Prifysgolion Cymru.

### Aelodau

**Dr Ben Calvert (Cadeirydd),** Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr, Prifysgol De Cymru

**Ruth Cocks,** Cyfarwyddwr, British Council Cymru

**Dr Andrew Cornish,** Pennaeth a Phrif Weithredwr, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion

**Dr Angharad Penny Evans,** Pennaeth Addysg Drydyddyol Ryngwladol, Llywodraeth Cyrmu

**Craig Goodwin,** Pennaeth Ymgysylltiad Rhyngwladol, Llywodraeth Cyrmu

**Andrew Gwatkin,** Cyfarwyddwr, Perthnasoedd a Masnach Ryngwladol

**Susana Galván Hernández,** Cyfarwyddwr Gweithredol, Taith

**Nicola Hunt,** Uwch Reolwr Profiad Myfyrwyr, CCAUC

**Geraint Huxtable,** Pennaeth Ymgysylltiad Rhyngwladol, Llywodraeth Cyrmu

**Amanda Wilkinson,** Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru

# Pwyllgor Prifysgolion Cymru

Mae Pwyllgor Prifysgolion Cymru, yn ei rôl fel Cyngor Cenedlaethol Cymru o sefydliad Prifysgolion y DU (UUK), yn gweithredu fel Bwrdd ar gyfer y Rhaglen gyda chyfrifoldeb am awdurdodi a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a gweithgareddau y cytunwyd arnynt ar gyfer y rhaglen. Hefyd adolygu'r sefyllfa gyllidol a datganiadau ariannol arferol, ynghyd â chadarnhau diweddariadau monitro parhaus ac adroddiadau cyn eu cyflwyno.

## Aelodau

**Yr Athro Elizabeth Treasure (Cadeirydd),** Is-Ganghellor, Prifysgol Aberystwyth

**Yr Athro Cara Aitchison,** Is-Ganghellor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**Yr Athro Paul Boyle,** Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe

**Yr Athro Edmund Burke,** Is-Ganghellor, Prifysgol Bangor

**Dr Ben Calvert,** Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr, Prifysgol De Cymru

**Yr Athro Elwen Evans, KC,** Is-Ganghellor, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Yr Athro Maria Hinfelaar,** Is-Ganghellor, Prifysgol Wrecsam

**Yr Athro Wendy Larner,** Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd

**Ben Lewis,** Cyfarwyddwr, Y Brifysgol Agored Cymru (o fis Tachwedd 2023)

**David Price,** Cyfarwyddwr Dros-dro, Y Brifysgol Agored Cymru (tan fis Tachwedd 2023)

# Bwrdd Prifysgolion y DU


Sefydliad Prifysgolion y DU (UUK), sef y rhiant gorff ar gyfer Prifysgolion Cymru, yw'r endid cyfreithiol a enwir ar gyfer derbyn a rheoli cyllid Cymru Fyd-eang III gyda chyfrifoldeb cyfreithiol am fodloni amodau grant a throsolwg, trwy Fwrdd UUK a'i Bwyllgor Archwilio a Risg, i sicrhau bod yr amodau hyn wedi'u bodloni.

# Sefyllfa ariannol Cymru Fyd-eang III

## Sefyllfa diwedd blwyddyn

Roedd gan Gymru Fyd-eang III gyllideb o £2,280,191 ar gyfer Blwyddyn 1. Ar 31ain Gorffennaf 2023, y gwariant ar gyfer y cyfnod hwn oedd £2,256,346.

Mae dadansoddiad o wariant Cymru Fyd-eang III fesul maes rhaglen wedi'i amlinellu isod.



+44 (0)29 2044 8020
info@uniswales.ac.uk
uniswales.ac.uk/our-work/global-wales
@wales_global

Mae Cymru Fyd-eang III yn cael ei ariannu
gan Lywodraeth Cymru trwy Taith

Ariennir gan
Funded by
Taith

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government